

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 41 Hydref 13, 2022 50c.

SYMUD YMLAEN

Rhoddodd llywydd yr oedfa, y Parchg Geoffrey Eynon, siars i'r aelodau i beidio â chredu am un funud fod eu penderfyniad yn gyfystyr â bradychu eu cyndeidiau a'r sylfaenwyr mewn unrhyw fodd. 'Na, ddim ar unrhyw gyfrif, rydych wedi anrhydeddu ffydd y tadau gynt,' meddai, 'ac wedi gwasanaethu'n ffyddlon. Rydych i'ch canmol am beidio â chuddio eich pennau yn y tywod wrth ystyried y dyfodol. Peidiwch bod ag ofn,' oedd byrdwn ei sylwadau wrth gyfeirio at benderfyniadau a wnaed gan Abraham er mwyn symud ymlaen.

DRWS CAPEL YN CAU – CYN AGOR ETO

Profiad melys-chwerw oedd achlysur cau capel Brynmyrnach yn Hermon, ger Crymych ar bawn Sul olaf mis Medi. Er bod yr achos yn dod i ben, bydd rhan o'r adeilad yn cael ei drawsnewid yn ganolfan treftadaeth a fydd yn cynnwys creiriau o'r capel, tra bod rhai o'r aelodau olaf yn ystyried ymaelodi â'r fam eglwys yn Llwyn-yr-hwrdd ym mhentref cyfagos Tegryn.

Daeth cynulleidfau deilwng ynghyd ym Mrynmyrnach i dystio i'r penderfyniad i gau'r achos ac i ddangos eu cefnogaeth i'r aelodau olaf oedd wedi dod i'r casgliad bod hynny'n anorfod. Yn eu plith roedd dau gyn-weinidog, y Parchedigion Emyr Wyn Thomas a Hywel Mudd; y Parchg Siân Elin a fu'n mynychu'r ysgol Sul yno pan oedd yn blentyn, a'r Parchedigion Catrin Thomas a Ken Thomas. Roedd yr organydd, Rhianydd Francis, 83 oed, yn rhoi'r gorau i gyfeilio'r diwrnod hwnnw ar ôl 70 mlynedd o wasanaeth.

Cyflwynodd y Parchg Hywel Mudd, a fu'n weinidog ar ofalaeth o chwech o gapeli'r fro am 20 mlynedd, nifer o ddarlenniadau pwrpasol gan gynnwys yr ail Salm, darnau o'r Gwynfydau ac adnodau o Lyfr Eiseia. Cafwyd gweddi ddwys gan y Parchg Siân Elin a bu



Hefin Wyn yn rhannu atgofion cyfnod ei dad, y Parchg A. Lloyd Harries, a fu'n weinidog Llwyn-yr-hwrdd a Brynmyrnach am dros 30 mlynedd. Soniodd am lais arbennig Mayo Evans yn morio canu emynau megis 'O fy Iesu bendigedig'; am ddiweidi ei gŵr, Alun 'Gad' ar y galeri adeg y ddefod o holi ac ateb y gymanfa bwnc flynyddol, ac am y modd y medrai ei dad ddibynnu ar y diaconiaid i gyflawni gwaith yr eglwys gyda graen gan eu henwi fel yr adwaenid hwy ar y pryd – Les Ffoshelyg, Dafi Tegfan, Dai Glog ac Islwyn Pantygwyddyl, heb anghofio Jane Gurnos a'i chyfraniad i'r ysgol Sul.

Dau beth annisgwyl

Wrth baratoi'r sylwadau, meddai Hefin, roedd dau beth annisgwyl wedi digwydd. Derbyniodd lythyr i'w gyhoeddi yn *Clebran* (y papur bro lleol) oedd yn berthnasol i'w fyfyrddodau. Dyfynnodd ran ohono: 'Rydym yn byw mewn cyfnod sydd yn newid, sef cyfnod trothwyol. Hynny yw, nid yw'r hen batrwm wedi llwyr ddiflannu, ond ar yr un pryd nid yw patrymau'r dyfodol yn hollol glir ychwaith! Mae fel petaem yn bodoli mewn dau dymor a dau gyfnod.' Pwysleisiodd bod rhaid i ni ystyried ein hunain yn rhan o'r cyfnod trothwyol.

Gorwelion newydd

Yr ail ddiwyddiad annisgwyl, meddai Hefin Wyn, oedd derbyn neges e-bost yn tynnu sylw at Gynhadledd Cristnogaeth 21 yn Aberystwyth o dan y teitl 'Gorwelion Newydd' lle disgwylir i bobl fel Dafydd Iwan a'r Parchg Gareth Ioan gymryd rhan. Chwilio am atebion yw'r nod yn y cyfnod trothwyol hwn. A chyn canfod gorwelion newydd rhaid cydnabod yr hen orwelion a phenderfynu beth aeth o'i le. Cyn chwilio am ffyrdd newydd rhaid ffarwelio â hen lwybrau a chanfod traffordd o'r newydd. Cyfeiriodd at y modd y mae'r gyfundrefn addysg yn ad-drefnu ei hun, yn cyfuno ysgolion a chodi adeiladau newydd pan ddaw'r angen gan barhau i gydymffurfio â pholisïau canolog a rhannu adnoddau.

Mentrodd awgrymu nad yw Anghydfurfiaeth ar y cyfan wedi llwyddo i addasu yn yr un modd. Dyfynnodd ymhellach o fwletin Cristnogaeth 21 y bore hwnnw: 'Wrth gwrs, efallai y dywedwch mai torri cysylltiad â'r hen drugareddau yw'r unig ffordd i gael dechrau newydd. Torri'r cysylltiad â'r hen adeiladau a chladdu'r holl broblemau sydd ynghlwm â nhw, gan gychwyn o'r newydd mewn lleoliad newydd a chael pawb o bob enwad ynghyd i'r un lle i gydaddoli.'

parhad ar y dudalen gefn



BARN PERSON 100 OED AM NEWID HINSAWDD

Dyma atgofion Irene Williams am aeaf caled 1970 yn Ottawa, yn ystod y cyfnod pan oedd ei diweddar ŵr, y Parchg Ddr Cyril Williams, yn Athro Crefyddau ym mhrifysgol Carleton. Mae Mrs Williams yn aelod yn y Prioridy, Caerfyrddin, lle bu ei gŵr yn weinidog gynt. A hithau wedi dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed yn ddiweddar, dyma'i herthylg o *Papur Prioridy*. Diolch am gael ei defnyddio.

Yn ystod yr haf crasboeth eleni bŵm yn gwrandao ar newyddion y byd gan fod gennyf ddi-ddordeb a chysylltiadau mewn nifer o wledydd.

Daeth i'm cof aeaf 1970. Roeddem yn byw yn Ottawa, prifddinas Canada, ar y pryd a chawsom saith troedfedd o eira. Nid oeddem yn medru mynd o'r tŷ a'r aradr eira yn methu dod allan am ddiwrnodau. Roedd y newyddion ar y radio yn awgrymu, os yn bosibl, i bobl i fynd allan ar y to i chwalu'r eira rhag i'r to ddymchwel. Roedd ein mab Eirian yn ddeunaw oed ac yn byw gyda ni, felly aeth e lan i'r llofft ac allan drwy'r ffenestr a lan i'r to a rhoio'r eira i'r ardd gefn. Roedd yr Eidalwyr yn credu fod llanw baddon â dŵr twym yn mynd i helpu'r eira i doddi. Ond daeth rhybudd i ni



beidio â gwneud hyn gan fod y pibellau wedi rhewi ac yn methu derbyn y dŵr ac felly yn achosi llifogydd a oedd yn rhewi ar ben yr eira.

Cwmni Dewi Pws!

Nid oedd pantri bwyd yn y tai ond roedd gennym rewgelloedd a fyddai'n cael eu llenwi i'r ymylon ar ddechrau pob gaeaf ac roeddem yn cadw digon o laeth powdr hefyd. Roedd gan Eirian recordydd tŷ ac felly caneuon pop Cymraeg fel rhai Dewi Pws a fu'n gwmmi i ni yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n debyg mai hwn oedd y trwch mwyaf o eira a gofnodwyd a derbyniodd bawb dystysgrif i ddynodi hyn. Mae

hwnnw heddiw yng nghartref Eirian yn Llandysul. Hanner can mlynedd yn ddiweddarach does dim eira o gwbl. Dyma'r adeg y prynais ddau brint o waith yr Inuit. Tynnwyd y gwreiddiol ar garreg ond collwyd y ddawn honno o arlunio hefyd. Mae'r ddau brint yn drysorau a bellach maent gyda dau o'm hwyron, un ym Mangor a'r llall yn yr Alban.

Dim peilotiaid

Y flwyddyn ddilynol penderfynodd Cyril (y Parchedig Athro Cyril Williams – un o gyn-weinidogion y Prioridy) fod yn rhaid i ni gael haul yn ystod y gaeaf. Felly dyma fynd am wythnos i ynysoedd y Caribî gan hedfan o Montréal. Roeddem wedi gwneud ymholiadau am y tywydd ymlaen llaw a chael gwybod bod yn rhaid i ni fod yn y maes awyr erbyn un ar ddeg o'r gloch. Roedd y car yn gwrthod cychwyn ac roedd y rhew yn drwchus. Ffonion ni Glyn Richards, un o'n cymdogion, ac yntau'n dweud wrthym beth i'w wneud ac o fewn rhyw chwech i saith munud dechreuodd y car ac fe yrrodd Eirian ni i Montréal. Roedd y ffyrdd yn glir ac fe gyrhaeddodd mewn pryd. Ond doedd dim peilotiaid, roeddent wedi cael eu rhwystro gan yr eira a'r rhew. Doedd dim eisiau i ni bryderu, roeddem yn siŵr o fynd oherwydd bod yr awdurdodau yn cysylltu â pheilotiaid a oedd yn byw yn agosaf at y maes awyr. Erbyn tri o'r gloch y prynhawn roedd popeth yn barod i ni gael hedfan i'r gwres. O fewn tair awr roeddem ar y traeth a phawb yn torheulo.

Dyn yn dinistrio natur

Aethom adref ar ôl wythnos o haul yn barod i wynebu'r tymor canlynol. Erbyn heddiw does dim angen cymorth i dorri'r iâ ar y camlesi. Yn anffodus mae dyn yn newid ac yn dinistrio trefn naturiol natur.

Y GWRAGEDD YNG NGLYNARTHEN



Cynhaliwyd cyfarfod hyfryd o fendithiol ac addysgol o gyfarfod Chwiorydd De Ceredigion nos Fercher 14 Medi yn festri capel Glynarthen pryd y daeth cynrychiolaeth dda o wragedd eglwysi'r Annibynwyr at ei gilydd i gael canu emynau dan lywyddiaeth Gwendoline Evans a Rhian Evans yn cyfeilio, darlleniad o'r Beibl gan Delyth Smart a gweddi gan Mair Griffiths. Bu Llinos Twigg o Aberteifi yn

arddangos blodau ar gyfer cyfarfodydd Diolchgarwch am y cynhaeaf a trosglwyddwyd Beibl Llywyddiaeth y Cwrdd Chwiorydd i'r Parchedig Carys Ann, a cadarnhawyd swyddogion newydd y Cwrdd Chwiorydd sef Ysgrifennydd Rhian Evans a Trysorydd Ennis Davies, cyn ymuno wrth y byrddau am wledd wedi ei baratoi gan chwiorydd caredig capel Glynarthen.

Yn y llun (chwith-dde) gweler Mair Rees, ysgrifennydd ymadawol; Yvonne Bowen, Trysorydd ymadawol, Parchedig Carys Ann, cadeirydd newydd, Gwendoline Evans, cadeirydd ymadawol, Llinos Twigg bu yn arddangos blodau.

Yr Adran Gydenwadol

'Roedd RHAID mynd i Gaerdydd!'

Argraffiadau o Gymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Argraffiadau personol sydd gennyf ac nid adroddiad manwl. Mae *Llais y Gymanfa* yn cynnwys mwy o fanylder ond hoffwn rannu gyda chi rai pethau gafodd argraff arnaf a'r bobl wnes i gyfarfod. Cynigiais gynrychioli ein Henaduriaeth gan fod rhai'n methu mynychu, ac roeddwn yn benderfynol o geisio mynd i Gaerdydd er mwyn bod yn bresennol yn Salem, Treganna. Doeddwn i erioed wedi bod yn y capel ond wedi clywed cymaint amdano. Yn ystod yr haf cefais gyfarfod Llywydd y Gymanfa Gyffredinol am y tro cyntaf, sef y Parchedig Evan Morgan, gweinidog Salem. Roedd yn cerdded o gwmpas Cymru a'r Gororau yn codi arian ac ymwybyddiaeth tuag at ein hapêl arbennig, Hadau Gobaith, Cymorth Cristnogol. Yn dilyn ei anogaeth ef ac yn hwyrach ymlaen clywed am benodiad fy ffrind a chyn-gydweithiwr, y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies, fel Ysgrifennydd Cyffredinol yr enwad, roedd RHAID mynd i Gaerdydd!

Wedi cyrraedd y capel roedd yn braf gweld wynebau cyfarwydd! Ac roedd y croeso gan Evan a Nan wedi cadarnhau fy mod wedi gwneud y peth iawn yn teithio i Gaerdydd ar gyfer mynychu'r Gymanfa. Yn digwydd bod, yn ein llety roedd Siwan, fy merch, yn aros pan oedd yn fyfyrwr blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd!

Oherwydd bod y Llywydd Etholedig wedi cael swydd Ysgrifennydd Cyffredinol, roedd angen pleidleisio am Lywydd newydd ar gyfer 2023. Mae'r Parchedig Evan Morgan yn parhau fel Llywydd hyd at y Gymanfa y flwyddyn nesaf, fydd i'w chynnal yng Nghaerdydd. Etholwyd y Parchedig Aneurin Owen, Llansannan, i olynu Evan Morgan, a dymunwn bob bendith iddo yntau.

Un o'r pethau fydd yn aros yn fy nghof fydd y canu arbennig yn ystod ein hoedfaon. Mae canu pedwar llais wedi mynd yn beth anghyffredin yn ein capeli bellach ac roedd yn ddirchafedig ac yn clodfori'r Arglwydd. Roedd y cwmni arlwygo wedi paratoi bywd anhygoel ar ein cyfer ac roedd y gymdeithas o gwmpas y byrddau yn hyfryd iawn. Mewn sgwrs dros swper sylweddolais fod gwraig i ail gefnder i mi o ardal Aberystwyth yn bresennol. Doeddem ni erioed wedi cyfarfod a dwi ddim yn nabod fy ail gefnder chwaith, ond rywsut neu'i gilydd fe wnaethom siarad am Lan-non a sylweddolwyd bod cysylltiad rhyngom! Byd bach yn wir!

Caplan y Gymanfa oedd y Parchedig Richard Brunt, Llundain, ac nid wyf wedi gweld llawer ar Richard ers i ni fynd ar daith gyfnewid i Myanmar (Burma) yn nechrau'r 1990au! Ar y daith roedd Richard a minnau, Anna Jane Evans a dau o Ogledd Iwerddon. Roedd Richard wedi trefnu ein bod yn cael neges gan Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Myanmar, ac mae'n rhaid i mi gyfaddef bod ei weld yn rhoi neges i ni ar sgrin wedi fy ngwneud yn emosiynol iawn a ninnau'n ymwybodol o'r sefyllfa ofnadwy sydd yn y wlad ar hyn o bryd. Cawsom gyfle i wneud casgliad tuag at waith yr Eglwys yn Myanmar a chofio amdanynt yn ein gweddïau.

Roedd newid hinsawdd yn thema arall yn y Gymanfa hon, a ninnau wedi cael gwres anhygoel yn ystod yr haf a diffyg dŵr yn ne-ddwyrain Lloegr yn arbennig. Thema ein hapêl Cymorth



Y Parch. Evan Morgan, Llywydd y Gymanfa, yn cyflwyno anrheg i'r Parch. Meirion Morris, y cyn Ysgrifennydd Cyffredinol, ar ei ymddeoliad, gan ddiolch iddo am ei waith dros y deng mlynedd diwethaf



Y Parch. Aneurin Owen, Llywydd Etholedig



Cheryl Williams (Cydlynnydd Cymorth Cristnogol ar ran EBC), Mari McNeill (Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru), Y Parch. Evan Morgan a'r Parch. Nan Wyn Powell-Davies

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru Caerdydd 2022

(parhad o dudalen 1)

Cristnogol Hadau Gobaith yw newid hinsawdd a chyfiawnder hinsawdd. Cawsom ddiweddariad am yr apêl a'n atgoffa bod gennym hyd at y Pasg nesaf i gasglu'r arian sydd yn gyfystyr â £15-£16 yr aelod. Gwnawn ein gorau i dynnu sylw ein haelodau at hyn, gan obeithio y medrwn drosglwyddo swm anrhydeddus i Gymorth Cristnogol yn y gwanwyn.

Y darlithydd ar gyfer y Ddarlith Davies eleni oedd y Parchedig Ddr Diane Stirling. Mae Diane yn dod o Moreton, Cilgwri, yn wreiddiol ac roedd yn gemegydd cyn mynd i'r weinidogaeth. Dysgodd Gymraeg yn rhugl ond traddodwyd y ddarlith yn Saesneg y tro yma ar y testun 'Climate Change: Hand of God or Hand of Man?' Diolchwyd iddi am gadw ei haddewid i ddarlithio er iddi golli ei gŵr yn ystod y dyddiau cyn y Gymanfa.

Traddodwyd y Ddarlith Hanes gan y Parchedig Dafydd Andrew Jones ar hanes Ysbyty Shillong 1913-1927. Diolch iddo yntau am ddarlith lawn a manwl am hanes yr ysbyty cenhadol yng Ngogledd-ddwyrain India.

Daeth cynllun pensiwn gweithwyr Eglwys Bresbyteraidd Cymru i ben ddiwedd Medi oherwydd nad yw'n gynaliadwy. Nid yw hyn yn effeithio'r rhai sydd yn derbyn pensiwn yn barod, ond bydd cynllun newydd yn dechrau 1 Hydref 2022.

Cafwyd adroddiadau calonogol iawn gan y Gwasanaeth Ieuenctid a'r gwaith sydd yn digwydd yng Ngholeg y Bala, a hwythau wedi cael dwy flynedd anodd oherwydd Covid-19. Mae'r gwaith o geisio cael partner i gydweithio ag EBC yn y Coleg yn mynd rhagddo hefyd. Diolch am adroddiad y Chwiorydd hefyd, ac am yr adnoddau arbennig drwy gynllun GOLUD. Bydd llyfrau lliwgar yn cynnwys hoff adnodau ac emynau yn cael eu dosbarthu drwy'r Henaduriaethau yn ystod yr hydref, a byddant o gymorth i rai sy'n dioddef o ddementia. Diolch am gynhyrchu llyfryn mor lliwgar ac apelgar.

Roedd y gwasanaeth Cymun yn arbennig, a diolch i'r Parchedig Gwenda Richards am ei neges o flaen y bwrdd. Diolch am gael bod yn bresennol yn y Gymanfa a chael ailgydio mewn cyfeillgarwch efo sawl un oedd yno. Diolch yn arbennig i'r Llywydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol (Evan a Nan) am y ffordd gartrefol a chynnes y gwnaethoch arwain y Gymanfa. Pob bendith yn y gwaith yn ystod y flwyddyn nesaf. Gyda llaw, dyddiad y Gymanfa flwyddyn nesaf yw 10-12 Gorffennaf 2023.

Marian Lloyd Jones
Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain



Yr Ysgrifennydd Cyffredinol newydd
Y Parch. Nan Wyn Powell-Davies



Carys Davies, Sarah Morris a Christine Hodgins yn cyflwyno deunyddiau'r cynllun GOLUD



Y cynrychiolwyr yng Nghapel Salem, Caerdydd. Roedd nifer hefyd yn ymuno â'r gweithgareddau drwy gyfrwng Zoom o Gymru benbaladr

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 16 Hydref am 7.30yh

A hithau'n dymor diolchgarwch, bydd Nia yn treulio amser gyda'r artist Eddie Ladd, sydd yn ôl yn ei chynefin yng Ngheredigion

BBG | radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 16 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp

Mwy o ganu cynulleidfaol o Gymanfa Ebeneser, Castellnewydd Emlyn

Sul, 16 Hydref, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Meilyr Geraint, Caerdydd



3 Bendithio Abraham

Darlenniad – Genesis 17:1–8

Un o'r ymadroddion mwyaf cyfarwydd ym mywyd eglwys neu ym mywyd Cristnogion yw'r ymadrodd 'pob bendith', neu ddim ond y gair 'bendith'. Wrth ddarllen drwy'r Beibl gwelir ei fod yn air canolog iawn o'r dechrau i'r diwedd, ond tybed faint ohonom sydd yn glir ynglŷn ag ystyr y gair? Efallai fod gennym ryw syniad, ond, wrth feddwl am Abraham ac am arwyddocâd y ffaith fod Abraham yn cael addewid droeon y byddai Duw yn ei fendithio, ac y byddai ef a'i deulu yn fendith, yr wyf am dreulio'r wers yma'n edrych ar ystyr y gair. Yr wythnos nesaf mi fyddwn ni'n edrych ar beth oedd natur 'bendith' ym mywyd Abraham.

Fel y nodais, mae bendith yn thema sy'n cwmpasu o ran ei hystyr holl ddaioni Duw tuag at y ddynoliaeth. Rydym ni'n tueddu i ddefnyddio'r ymadrodd wrth geisio 'bendith' ar ein gwaith neu ein hymdrechion. Prin yw'r holi a ydym mewn lle i dderbyn bendith, neu a ydym am gael ein symud i le felly. Bendithiwyd Noa gan Dduw pan, mewn uffudd-dod, y condemniodd y byd. Felly Abraham, cafodd ei fendithio wrth i'r Arglwydd ei alw i adael popeth yr oedd yn ei adnabod. Derbyniodd Joseff fendith Duw fel carcharor ac fel gwas ymhell cyn iddo adnabod y galwad i fod yn llywodraethwr.

Yn ychwanegol, rhaid nodi hefyd, er y mynych gyfeiriadau at fendith, fod cyfeiriad at felltith hefyd yn Genesis, fel yng ngweddill y Beibl. Un o'r adrannau lle y mae'r ddau'n cael eu cymharu yw Deuteronomium 27 a 28. Yr wyf am nodi dri pheth yn unig gyda golwg ar hynny. Yn gyntaf, nid oes yr un enghraifft o Dduw yn bendithio rhywun, ac yna'n cyhoeddi melltith arno/arni. Mae hyn yn ddeillio o'r ail beth yr wyf am ei nodi: mae bendith bob amser yn dod o fewn perthynas â Duw. Yn olaf, fel yn yr Hen Destament, mae bendith yn y Testament Newydd yn addewid i'r rhai sydd yn nheyrnas Dduw, yn cadw geiriau Duw, rhai y mae eu pechodau wedi eu maddau, y rhai sydd wedi eu gwahodd i'r wledd briodas. Maent i gyd ynghlwm â gwaith Iesu drosom: yr un, drwy ei fywyd, ei farw a'i atgyfodiad, sy'n ein gwneud yn etifeddion yr addewidion, y bendithion a addawyd i Abraham.

I geisio diffinio bendith, yn arbennig yn hanes Abraham, gellir dweud mai ystyr y gair yw rhoi braint, cyfrifoldeb neu ffafri i ryw ran o greadigaeth Duw, a hynny gan Dduw, neu gan rywun y mae Duw wedi ei fendithio. Mewn perthynas â'r ddynoliaeth, cael eich bendithio yw bod yn un o bobl Dduw gyda'r holl drugareddau sy'n dod yn sgil hynny. Mewn geiriau eraill, bendith Duw yw ei bresenoldeb yn eich bywyd mewn perthynas real. Yn yr Hen Destament, y gair a ddefnyddir amlaf yw *baruk*; wrth gyfeirio at yr Arglwydd mae'n golygu mawl, ac yn achos pobl mae'n cyfeirio at ffafri, hapusrwydd a byw mewn ffordd sy'n plesio Duw. Yn y Testament Newydd mae'r gair *makarios* yn golygu gwynfyd a hapusrwydd, bywyd sydd i'w ganmol.

I grynhoi felly, estyniad o waith gras yw bendith a hynny yn hanes y rhai sydd mewn perthynas â Duw. Yn ôl Salm 32:1, 'Gwyn ei fyd y sawl y maddeuwyd ei drosedd, ac y cuddiwyd ei bechod.' Sail a man cychwyn bendith felly yw ein perthynas â Duw trwy'r Arglwydd Iesu. Yn dilyn o hynny, y fendith mewn gwirionedd yw ceisio Duw a bod yn y lle hwnnw sy'n rhyngu ei fodd. Mae bendith neu wynfyd yn dod wrth ymddiried, wrth lochesu, wrth geisio â'n holl galon. Bendith yw ymfrydyd yng ngeiriau Duw a gwranddo arno. Yn ddiddorol iawn, mae Iesu hefyd am ddweud bod y rhai sy'n galaru, yn dlawd neu'n cael eu herlid wedi eu bendithio. Nid mater o gael cysuron neu bethau, ond bod yn y lle, beth bynnag fo'n hamgylchiadau,

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

lle mae Duw yn ddigon, lle mae Iesu'n ddigon. Wrth ysgrifennu at Gristnogion oedd yn wynebu ar erledigaeth sylweddol, mae Pedr yn dweud: 'Ond hyd yn oed pe digwyddai ichwi ddiweddef o achos cyfiawnder, gwyn eich byd!' (1 Pedr 3:14)

1. Wrth ddymuno bendith i rywun, pa mor agos at ystyr y Beibl o fendith yw ein dyhead ni drostynt?
2. Pa beryglon sydd mewn deall bendith neu fendithion dim ond yn nhermau cael pethau da? Beth am bobl sydd ddim yn eu cael?
3. Mae bendith yn deillio o'n perthynas â Duw yn Iesu Grist. Sut mae gweddio a gweithio yn eich bywyd fel unigolyn ac eglwys i ddymuno'r fendith hon i bobl?



Cytûn Eglwys Ynghyd yng Nghymru

Mae Cytûn, Eglwys Ynghyd yng Nghymru yn gwahodd ceisiadau am swydd

Prif Weithredwr

a ddaw'n wag toc gan y bydd deiliad presennol y swydd, y Parchedig Ganon Aled Edwards, yn ymddeol.

Bydd deiliad y swydd yn:

- ❖ arwain gyda gweledigaeth ar eciwmeniaeth ac ymwneud â'r cyhoedd gan Eglwys Cymru a bydd yn galluogi ac yn dwyn ymlaen y rhaglen waith a'r blaenoriaethau a osodir gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Cytûn i wasanaethu'r eglwys;
- ❖ goruchwyllo cefnogaeth i'r Cyfamod dros Undod yng Nghymru trwy Gomisiwn yr Eglwys Cyfamodol;
- ❖ rheoli tîm sy'n cyflwyno'r rhaglen waith y cytunwyd arni gan y bwrdd a'r eglwys sy'n aelodau;
- ❖ Gristion sy'n deall ac yn derbyn sylfaen drindodaidd Cytûn;
- ❖ gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg a Saesneg.

Am fwy o wybodaeth am Cytûn, y rôl, a'r unigolyn yr ydym yn chwilio amdani/o, cysylltwch â: cadeirydd@cytun.cymru <https://www.cytun.co.uk/hafan/swyddi/>

Gwnewch gais ar-lein at cadeirydd@cytun.cymru

A fyddwchystal â chynnwys y canlynol:

- CV cynhwysfawr sydd yn cynnwys eich llwyddiannau diweddar a manylion dau ganolwr, gydag un ohonynt yn goruchwyllo eich gwaith cyfredol;
- llythyr cais sydd yn cynnwys eich rheswm dros wneud cais a'r priodweddau y byddwch yn eu dwyn i'r rôl.

• Rhaid derbyn ceisiadau erbyn 11 Tachwedd 2022

• Cynhelir y cyfweiliadau ar 25 Tachwedd 2022

Cysylltwch â cadeirydd@cytun.cymru os oes gennych unrhyw broblemau

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

DARN ARIAN O GYFNOD GENI IESU

Mae gennyf gyfaddefiad i'w wneud. Rwy'n niwmistmatydd! Na, nid yw hynny'n bechod fel y cyfryw. Dyna'r enw am rywun sy'n casglu hen arian. Mae gennyf gasgliad bach (iawn) o ddarnau arian hynafol sydd â chyswllt agos gyda'r Beibl, Cristnogaeth neu Gymru. Mae'r erthygl gyntaf hon mewn cyfres achlysurol ar gyfer *Y Tyst* am ddarn arian o gyfnod geni Iesu.

LUC 2: 1,3–5 *Yn y dyddiau hynny aeth gorchymyn allan oddi wrth Cesar Awgwstus i gofrestru'r holl Ymerodraeth ... Aeth pawb felly i'w gofrestru, pob un i'w dref ei hun. Oherwydd ei fod yn perthyn i dŷ a theulu Dafydd, aeth Joseff i fyny o dref Nasareth yng Ngaliilea i Jwdea, i dref Dafydd a elwir Bethlehem, i ymgofrestru ynghyd â Mair ei ddyweddi; ac yr oedd hi'n feichiog.*



Profiad gwefreiddiol yw dal yn eich llaw darn arian sy'n dangos wyneb y dyn oedd yn Ymerawdwr Rhufeinig pan anwyd Iesu Grist. Llyn Cesar Awgwstus (63 CC–14 OC) sydd ar y darn arian cwinariws wnes i brynu'n ddiweddar am £30 mewn ocsiwn gan Tennants, un o'r cwmnïau arwerthwyr uchaf eu parch ym Mhrydain. Darn arian bychan iawn ydyw'r cwinariws, oedd hanner gwerth denariws ac sy'n llai o faint na'n darn pum ceiniog ni. Fel cymaint o arian hynafol, ni chafodd ei dorri'n grwn cywir, ond mae'r ddelwedd yn dangos yn glir fod gan yr hen Awgwstws 'drwyn Rhufeinig' go iawn!

ddathlu ar ochr arall y darn arian, sydd â delwedd o Victoria (Buddug) yn sefyll ar ben y *cista mystica* sef based oedd yn dal 'nadredd sanctaidd' i'w defnyddio mewn defodau paganauidd. Mae'n dal plethdorch a phalmwydden uwchben dwy neidr, ac mae'r geiriau *Asia Receptica* (Adennillwyd Asia) yn dathlu buddugoliaeth Octavius ym mrwydr Actiwim. Yn fuan ar ôl hynny, cafodd ei ddyrchafu'n ymerawdwr cyntaf Rhufain, gan gymryd yr enw Awgwstws. Bu'n teyrnasu am 45 mlynedd, cyfnod anhygoel o hir yn yr oes dreisgar honno. Gosododd seiliau i gyfnod o heddwch gymharol a fyddai'n para am 200 mlynedd – y *Pax Romana*.



Buddugoliaeth fawr

Ei enw oedd Gaius Octavius tan iddo drechu byddin Antony a Cleopatra mewn brwydr fawr ar y môr ger Actiwim yng Ngwlad Groeg yn y flwyddyn 31CC. Dyna sy'n cael ei

'Mab i dduw' ac enwau'r misoedd

Pan oedd yn ifanc, cafodd Awgwstws ei fabwysiadu gan Iwl Cesar. Yn y flwyddyn 42 CC, cafodd hwnnw ei ddyrchafu'n dduwdod. O ganlyniad, pan fu Awgwstws farw yn 14 OC, cafodd yntau ei ddyrchafu'n *Divi filius*, sef 'mab y duwdod.' Mae'n wahanol i'r enw *Dei filius*, sef mab Duw, a roddwyd i Iesu, ond mae'r gymhariaeth yn ddiddorol, ac mae'n siŵr y byddai'r efengylwyr yn ymwybodol o hynny.

Rhoddyd yr enw July i'r mis rydym ni'n galw yn Gorffennaf er cof am Iwl (Julius) Cesar a fu farw y mis hwnnw, a phan fu farw Awgwstws, rhoddyd yr enw Awst/August i'r mis canlynol.

Mae un o brif strydoedd Caerfyrddin yn dwyn yr enw Heol Awst oherwydd mai yn ystod y mis hwnnw y cynhaliwyd ffair geffylau fawr slawer dydd. Yn y stryd honno saif capel enwog Heol Awst. Mae'n ironig bod y capel lle cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol cyntaf Undeb yr Annibynwyr ym 1872, a lle buom yn cynnal oedfa i ddathlu hynny eleni, yn dwyn enw ymerawdwr paganauidd!

Ar achlysur Dathlu 60 Mlynedd Gweinidogaeth Y Parchedig Gwylfa Evans

Ein Gwylfa gwylaidd ydyw.
Llafuriodd ag egni
yn llawn her a llawenydd mewn llawer llan
o Lundain bell i Lanelli.
Nebo, Siloam a'r Foelas,
pentrefi ei brentisiaeth;
yna Brenin y Boro,
arwr anwylaf Harrow
a thywysog tyner twymgalon Tywyn.
O fil naw chwe deg dau,
cynnyrch di-feth ei bregethau
gynhaliodd y rhai sigledig
a chroesawu pob enaid colledig.
Y ddau hynod hynaws,
Nyni, hwy ac Annibynwyr y byd
a holl ffrindiau'r Ffydd.
Cyd-ddathlwn, cyd-fendithiwn a chyd-ddiolchwn
Am ein bod ni a nhw *yma o hyd*.



Gwilym Wyn Roberts, Caerdydd
(gyda chymorth amhrisiadwy cyfaill ffyddlon)

Golygyddol

Mahsa Amini

Ers canol mis Medi mae gwrthdystiadau wedi cydio mewn llawer o ddinasoedd yn Iran. Arweinir y rhain yn bennaf gan ferched ifanc a hynny yn erbyn gormes yr awdurdodau. Yn aml yn y protestiadau hyn, y mae merched yn torri eu gwalltiau ac yn llosgi eu penwisgoedd yn gyhoeddus. Mewn byr o amser, maent wedi lledu ar hyd a lled y byd gan gynnwys Cymru. Ar ddydd Sadwrn, 2 Hydref, yn fuan ar ôl gorymdaith YesCymru, fe gynhaliwyd gwrthdystiad yn y brifddinas i dynnu



sylw art farwolaeth Mahsa Amini. Ei phechod marwol oedd gwisgo penwisg anghywir yn Tehran ar 13 Medi. Cafodd ei harestio gan 'heddlu moes' Iran, sy'n cadw golwg ar foesoldeb y boblogaeth, gan gynnwys sut mae merched yn gwisgo.

Chwyldro Islamaidd

Un o ganlyniadau y Chwyldro Islamaidd o dan arweiniad yr Ayatollah Khomeini ym 1979 oedd bod rheolau gwisg a diwyg llym wedi dod i rym, yn enwedig ar gyfer menywod. Mae rheolau hefyd ar gyfer dynion sydd ddim mor llym, ond disgwylir iddynt wisgo yn weddus a dirodres. Disgwylid i ferched guddio eu gwalltiau yn llwyr gyda hijab (penwisg) a gwisgo dillad llac oedd ddim yn dangos croen (ar wahân i'r wyneb) na ffurf eu cyrff. [Daw eu cyfiawnhad am y rheolau ynglŷn â gwisg merched o'r Qur'an 24:31] Ond yn ddiweddar mae llawer o bobl ifanc wedi cicio yn erbyn y tresi gan wrthod cydymffurfio ac y mae hynny'n codi gwrychyn yr awdurdodau.

Moeslu

Sefydlwyd yr 'heddlu moes' sef y Gasht-e Ershad oddeutu 15 mlynedd yn ôl i gadw golwg ar foesoldeb a diwyg trigolion. Fel arfer maent yn gyrru o amgylch ardaloedd o Iran mewn faniau gwynion gyda streipen werdd arnynt. Hwy sy'n gyfrifol am warantu fod pobl yn cadw at y rheolau. Fel arfer maent yn rhybuddio unigolion sy'n torri rheol gwisg ar lafar ond weithiau maent yn arestio pobl gan eu cludo i ganolfannau lle maent yn cael



eu 'hail-addysgu'. Dyma yn rhannol ddigwyddodd i Mahsa Amini am beidio gwisgo penwisg yn gywir. Fe'i harestiwyd a thridiau'n ddiweddarach fe fu farw. Dywed yr awdurdodau ei bod wedi cael trawiad ar y galon ond y mae eraill yn dweud ei bod wedi ei cham-drin yn gorfforol. Dyma'r wreichionen a gyneuodd y tân sy'n llosgi yn Iran.

Dewrder

Bellach y mae marwolaeth Mahsa Amini wedi ysgogi llawer o fenywod ifanc Iran i frwydro dros hawliau, cyfiawnder a rhyddid i ddewis. Yn y dyddiau diwethaf y mae nifer o fideos wedi ymddangos, o ferched ysgol yn bennaf, yn gwrthod plygu i'r awdurdodau gan fynegi condemniad chwyrn tuag at y rhai sy'n rheoli. Rhaid edmygu eu dewrder aruthrol yn wyneb yr hyn all ddigwydd iddynt. Un arwyddair sydd wedi ei fabwysiadu gan y gwrthdystwyr yw 'Menyw, bywyd, rhyddid'. Nid brwydr yw hon yn unig am wisg neu benwisg, na, y mae'n llawer mwy na hynny. Mae'r menywod yn brwydro dros hawliau sylfaenol i gael rhyddid oddi wrth orthrwm; dros gyfiawnder cymdeithasol ac am yr hawl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Y mae galw arnom ninnau i sefyll gyda hwy yn eu brwydr. Yr alwad gyson arnom fel Cristnogion yw sefyll yn enw'r Iesu dros gyfiawnder a thegwch a hynny yn erbyn anghyfiawnder a gorthrwm o bob math. Rhai o egwyddorion sylfaenol teyrnas Dduw yw cyfiawnder a heddwch i bawb. Os hoffech anfon neges at eich aelodau seneddol ynglŷn â hyn cysylltwch gyda fi trwy aluntudur@btinternet.com i gael templed llythyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r ARGLWYDD bob amser yn deg, ac yn rhoi cyfiawnder i'r rhai sy'n cael eu gorthrymu.

Salm 103:6

Alun Tudur



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru**

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

DRWS CAPEL YN CAU – CYN AGOR ETO – parhad**COFIO AC ANRHYDEDDU'R GORFFENNOL**

Yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg byddai oedfaon a chyrrdau gweddi yn cael eu cynnal ar aelwydydd Nant-y-bwlch a Bwlch-y-dŵr, meddai Terry Reynolds wrth olrhain hanes yr achos. Cofnodwyd fel y byddai'r Parchg John Stephens, gweinidog Llwyn-yr-hwrdd, yn cynnal oedfa bregeth bob pythefnos ym Mhenrheol yng nghanol y pentref ar aelwyd Benoni Davies. Codwyd adeilad penodol wedyn yn 1889 ar gost o ychydig dros £400 a chynhaliwyd deuddydd o gyrrdau pregethu. Ond yn 1896 y cafodd yr adeilad ei gorffori'n eglwys ar wahân i Llwyn-yr-hwrdd. Trosglwyddwyd 57 o aelodau o'r fam eglwys a phedwar o Antioch i sefydlu'r achos. Erbyn 1905 roedd yno dros 100 o aelodau. Yn unol â'r arfer cynhaliwyd amrywiaeth o gyfarfodydd diwylliannol. Mae'n debyg bod Waldo wedi ennill gwobr o dan feiriadaeth ei gyfaill y Parchg E. Llwyd Williams mewn eisteddfod a gynhaliwyd yn 1942. Ar ryw olwg mae'r rhod wedi troi gan fod rhai o'r aelodau olaf yn ystyried ymaelodi â'r fam eglwys yn Llwyn-yr-hwrdd erbyn hyn



Y Parchedigion Emyr Wyn Thomas a Hywel Mudd yn mwynhau cwpaned a sgwrs

Dyfodol yr adeilad

Amlinellwyd y 'symud ymlaen' gan Cris Tomos drwy sôn y bydd y llofft yn cael ei addasu yn ddwy fflat ac y bydd y llawr yn ganolfan treftadaeth a fydd yn cynnwys creiriau yn gysylltiedig â'r capel. Mae'r swm angenrheidiol sydd angen ei godi yn lleol bron a chyrraedd y nod. Ychwanegodd ei bod yn rhyfeddol beth sy'n bosib trwy ddefnyddio cyfran o'r £4.8m o gronfa trethiant ail gartrefi Cyngor Sir Penfro.

Cludo'r Beibl o'r pulpud

Yn ystod yr oedfa canwyd 'Gwranddo, Iesu, ar fy ngweddi', 'Ymhlith holl ryfeddodau'r nef' a 'Nid wy'n gofyn bywyd moethus'. Caewyd y drws am y tro olaf ar yr adeilad fel capel gan Audrey Davies, yr ysgrifennydd, wrth iddi gymryd y Beibl o'r pulpud. Ac fel

sy'n digwydd bob amser pan fo'r llwythau'n dod ynghyd â phawb yn nabod ei gilydd yn dda roedd yr atgofion a'r sgwrsio yn felys uwchben paned a lluniaeth yn y Neuadd Gymunedol yn yr hen ysgol. Crisialwyd y cyfan gan Terry Reynolds mewn englyn:

Brynmynach, ni fydd machlud –
daw hedyn Treftadaeth llawn golud,
Sy'n estyn dwylaw astud
I'n diangof ddod ynghyd.

Cymanfa cyhoeddi Eisteddfod Yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023

Cafwyd noson arbennig iawn yng nghapel Annibynnol Gellimanwydd ar nos Sul 18 Medi pan gynhaliwyd Cymanfa Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr 2023.

Roedd yn wych gweld y capel yn orlawn gyda'r galeri yn llawn cantorion a'r llawr yn llawn o ieuencid y sir. Roedd Meinir Richards yn arbennig yn ein harwain gyda chymorth medrus Christopher Davies wrth yr organ a'r piano.

Un o uchafbwyntiau'r noson oedd unawd gan Owain Rowlands yn canu *Ave Maria* a gafodd ei chyfansoddi gan un o feibion Rhydaman, Richard Vaughan.

Bydd y Gymanfa yn cael ei darlledu ar *Dechrau Canu Dechrau Canmol* yn y flwyddyn newydd. Noson wych o fawl i ddathlu'r ffaith bod gŵyl ieuencid fwyaf Ewrop yn dod i Lanymddyfri.